


Gyrfaoedd mewn nyrsio deintyddol



Mae nyrsys deintyddol yn chwarae rhan allweddol yn y tîm deintyddol, gan gefnogi gweithwyr deintyddol proffesiynol gyda phob agwedd o ofal claf - o sterileiddio offer i helpu i gadw cleifion yn gyfforddus.

Beth mae nyrsys deintyddol yn ei wneud?

Mae gan nyrsys deintyddol nifer o ddyletswyddau allweddol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a rheoli heintiau, gan gynnwys offer diheintio a sterileiddio, glanhau'r ddeintyddfa a stocio'r holl offer angenrheidiol. Mae hefyd yn ofynnol i nyrsys deintyddol gefnogi gofal claf, o gynorthwyo gweithwyr deintyddol proffesiynol gyda thriniaeth gan gynnwys trosglwyddo offer i gymryd rôl allweddol wrth gefnogi'r claf.

Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn nyrs ddeintyddol dda?

- mae'r gallu i dawelu meddyliau cleifion pryderus, bod yn gyfeillgar a meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol yn allweddol ar gyfer bod yn nyrs ddeintyddol dda, gyda'r gallu i addasu eich steil ar gyfer y eich claf
- bydd angen i chi fod yn chwaraewr tîm rhagorol
- mae angen i chi fod yn drefnus, bod â sylw da i fanylion a hefyd bod yn drylwyr yn eich gwaith i wneud yn siŵr bod popeth wedi'i baratoi i'r safon uchaf
- bydd angen i chi hefyd feddu ar sgiliau TG da i gyflawni gweithgareddau fel cymryd nodiadau.

Ble mae nyrsys deintyddol yn gweithio?

- practis deintyddol cyffredinol
- clinigau cymunedol
- ysbytai
- carchardai.

Pa gyfleoedd sydd ar gael i nyrsys ddeintyddol?

- ymgymryd â dyletswyddau estynedig fel cymryd pelydrau-x
- astudio ar gyfer cymwysterau, er enghraifft i roi cyngor ar iechyd y geg
- symud ymlaen i rolau newydd fel rheoli practis neu mewn iechyd cyhoeddus.

Sut mae dod yn nyrs ddeintyddol?

I ddod yn nyrs ddeintyddol gofrestredig gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) bydd angen i chi ddilyn rhaglen hyfforddi a all gymryd rhwng 18 mis a thair blynedd i gwblhau ac ennill diploma mewn nyrsio deintyddol. Mae'r rhaglen yn cynnwys dwy ran. Yn gyntaf, gan roi profiad gwerthfawr i chi, mae gofyn i chi weithio nifer o ddiwrnodau'r wythnos o fewn practis cyffredinol. Yna yn ail mae'n ofynnol i chi fynychu'r coleg (unwaith yr wythnos fel arfer) i adeiladu eich gwybodaeth a gweithio tuag at eich asesiadau diploma.

Eisiau darganfod mwy?

Tregyrfa: <https://careersville.heiw.wales/cy>

Gyrfaoedd GIG Cymru: <http://www.gyrfaoeddgigcymru.com/>